CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 18 CHWEFROR 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
W L Davies, W T Owen, I C Thomas,H W Roberts, A W Bohana,
A Kirk, M Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas,
K Williams, B Owen, C Williams

1. Ymddiheuriadau

Cyng G Thomas a Cyng H Edwards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Gweithdy gan Cadw

Gofynnwyd i bod Cynghorydd adael i'r clerc wybod os ydynt ar gael i helpu parthed Dydd Gŵyl Dewi ac i rannu posteri newydd

3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas – Panel cyllid – sbarc ac ysgolion
C Williams – Panel Cyllid – CAB
E Lovgreen – Panel cyllid – sbarc ac ysgolion
W T Owen – cynllunio a phanel cyllid -ysgolion
E Hughes – Panel Cyllid – Dreamscheme
W R Owen – Panel Cyllid – ysgolion
T Thomas – Panel cyllid – ysgolion
A Hopcyn – Panel cyllid – ysgolion

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 4 Chwefror 2014 (A**todiad Gwyrdd**)
(yng nghefn y rhaglen)
ii. Panel Cyllid a Staff 11 Chwefror 2014 **(Atodiad Pinc)**
(yn yr amlen)

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir
ii. Derbyn fel rhai cywir a mabwysiadu'r argymhellion i gyd

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0072/14/LL **Cytuno**
Ail-osod carafannu statig, creu ffordd mynediad ynghyd a mannau parcio ychwanegol

Coed Helen Caravan Park, Coed Helen Road, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I **gy**meradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Er gwybodaeth (derbyniwyd cyn dyddiad y Cyngor diwethaf)

i) Llythyr diolch Canolfan Maesincla
ii) Llythyr cydnabyddiaeth Cyngor Gwynedd Par: Cylchfannau
iii) Cynllun 'Trechu Trosedd' Heddlu Gogledd Cymru
iv) Llythyr diolch gan Cyngor Cymuned Llanfairpwll
Pâr: Cyfarfod peilonau

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

10. Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad Mor a Physgodfeydd

Penderfynwyd

Symud i'r pwyllgor ymgynghorol

11. Cyngor Gwynedd

Parcio am ddim Nadolig

Penderfynwyd

Awgrymu bod y meysydd parcio am ddim am gyfnod o 3 awr bob diwrnod am y cyfnod yn hytrach na trwy dydd ar penwythnosau

12.**Rhybudd o Gynnig Cyng. M. Thomas**

Pâr: DBS

Cafwyd trafodaeth eang ar y pwnc

Derbyniwyd gwelliant i gael mwy o fanylion gan gyrff fel Unllais ag eraill , a bod angen newid rheolau sefydlog y Cyngor- ond fethodd y gwelliant. Felly rhoddwyd y cynnig gwreiddiol i bleidlais

Penderfynwyd

Cefnogi cynnwys y rhybudd o gynnig sef i gael DBS i bob Cynghorydd

13. Cyngor Gwynedd

Angen enw cynrychiolydd

Penderfynwyd

Cafodd Cyng C Williams ei enwebu

14. Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd Archwilio

(copi ar y bwrdd – grŵp ymgynghoriad wedi ei weld)

Penderfynwyd

Cefnogi'r argymhellion

15. John Thirsk

Par: Hysbysebu ar yn trên

Penderfynwyd

Dileu tan y cyfarfod nesaf gan fod y ffigyrau ar y ddwy ddogfen yn gwrthgyferbyniol a templed tarian bach a mawr

16. Unllais

i) Cynhadledd Pâr: Cofebion rhyfel
ii) Cynigion ar gyfer Cynhadledd Flynyddol/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014

Penderfynwyd

i) Enwebu i Cyng W T Owen i fynychu ar rhan y Cyngor a Cyng G Thomas os ar gael, hefyd medru llenwi'r car gan bod y cynhadledd ei hun am ddim
ii) Cynigion angen bod i mewn i'r clerc erbyn 24 Mawrth

17. Cwestiynau

Gofynnwyd faint o ymateb oedd wedi bod i'r llythyrau Dydd Gŵyl Dewi
Eglurodd y clerc yn anffodus doedd ddim un o'r cynghorwyr wedi rhoi manylion cyswllt felly dim ond i'r cyfeiriadau oedd gan y swyddfa aeth y llythyrau . Gwybod bod yr ysgolion, artistiaid, cadetiaid ac efallai guides yn troi allan – ac annog cynghorwyr i basio'r llythyr ymlaen i unrhyw gorff mae nhw yn adnabod

Gorffennodd Y cyfarfod am 6.45

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....